

POLISI SALWCH AC AFIECHYDON HEINTUS Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

Nod

Mae'r **Cylch Meithrin** yn ymwybodol y gall achosion godi pan fo plant yn sâl yn y lleoliad. Mae llawer o afiechydon plant yn heintus, ac mae gan y **Cylch Meithrin** gyfrifoldeb i sicrhau lles a iechyd pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad.

Egwyddorion

Nod y **Cylch Meithrin** yw sicrhau awyrgylch ddiogel a glân drwy gynnal a chadw'r ystafell ac offer, a gweithredu canllawiau a threfn sy'n galluogi'r staff i weithio'n ddiogel heb risg i'w hunain, y plant nac eraill.

Os yw plentyn yn sâl ni ddylent fod yn cael eu gadael yn y **Cylch Meithrin**. Os bydd plentyn yn ymddangos yn anhwylyd wrth gyrraedd, ni fydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r lleoliad. Cred y **Cylch Meithrin** mai'r lle gorau i blentyn sâl yw gartref gyda'i rieni / gofalwyr / gwarchodwyr. Os bydd plentyn yn mynd yn sâl tra'u bod yn y **Cylch Meithrin** bydd y Cod Ymarfer isod yn cael ei ddilyn.

Gwneir pob ymdrech i osgoi lledaenu heintiau ymysg plant ac oedolion yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys cadw golwg ar y plant am arwyddion a symptomau o glefydau cyswllt e.e. brech yr ieir, y frech goch, y dwymyn doben/clwy'r pennau (*mumps*), rwbela, llid yr ymennydd, hepatitis, dolur rhydd, chwydu neu wres o 101°F/38°C neu fwy.

Nod y **Cylch Meithrin** yw osgoi niwed yn hytrach nag ymateb iddo. Rhaid i staff fod yn ymwybodol o sefyllfaoedd peryglus posibl e.e. eitemau bach o fewn cyrraedd y plant lleiaf, ymddygiad corfforol.

Ni ddylid gadael plant ar ben eu hunain yn yr ystafelloedd, y tu allan nac yn y toiledau. Bydd y **Cylch Meithrin** yn cynnig unrhyw hyfforddiant neu oruchwyliaeth sydd ei angen ar staff i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau hyn.

Hawliau Plant

Mae sicrhau lles, iechyd a gofal plant sy'n dioddef o salwch neu afiechyd yn rhan o sicrhau fod y **Cylch Meithrin** yn parchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn benodol:

- | | |
|------------|---|
| Erthygl 3 | Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. |
| Erthygl 12 | Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. |

Erthygl 23 Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Cod Ymarfer

Trefn Ymateb i Salwch Plentyn

- Bydd y **Cylch Meithrin** yn dilyn canllawiau **lechyd Cyhoeddus Cymru** ar gyfnod gwahardd am resymau meddygol. (Gweler Poster yr **Asiantaeth Diogelu Iechyd Health Protection Agency yn Atodiad 1.**)
- Os bydd plentyn yn datblygu salwch tra ei fod yn y lleoliad bydd yr **arweinydd** yn cysylltu gyda'r rhieni / gofawyr / gwarchodwyr a gofyn iddynt gasglu'r plentyn cyn gynted ag y bod modd.
- Os bydd aelod o staff yn amau bod afiechyd heintus ar blentyn o dan ofal y lleoliad, rhaid iddo/iddi hysbysu'r **arweinydd** ar unwaith. Bydd y **Cylch Meithrin** yn dilyn canllawiau **lechyd Cyhoeddus Cymru** sydd yn y ddogfen '**Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0 - 5 Oed) Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae Canllawiau Cymru Gyfan (2014)**'. (Gweler y rhestr cysylltiadau defnyddiol isod.)
- Os oes gan y plentyn anhwylder heintus e.e. dolur rhydd neu chwydu, mae'n rhaid gadael o leiaf 48 awr ar ôl i'r symptomau ddiflannu cyn i'r plentyn ddychwelyd i'r **Cylch Meithrin**.
- Os bydd achos o afiechyd heintus yn digwydd yn y lleoliad, bydd y **Cylch Meithrin** yn sicrhau rhannu manylion am y symptomau cynnar gyda'r rhieni / gofawyr / gwarchodwyr. Bydd hyn yn eu helpu i adnabod symptomau a chadw eu plentyn/plant adref a chael sylw / triniaeth feddygol briodol iddynt yn ôl yr angen.
- Er mwyn parchu preifatrwydd plant a theuluoedd, ni fydd enw'r plentyn / plant sy'n sâl yn cael ei rannu gyda theuluoedd eraill.
- Pan fo achos o afiechyd heintus yn y lleoliad, bydd pob cyfarpar ac adnodd sydd wedi bod, neu a allai wedi bod mewn cysylltiad gyda'r plentyn / plant yn cael eu glanhau a'i sterileiddio'n drylwyr.
- Dylai staff roi gwybod i'r **arweinydd** yn syth unrhyw bryderon sydd ganddynt am heintiau neu anafiadau ymhlith y plant neu eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad.
- Dylid nodi'r rheswm dros absenoldeb plentyn ar y **Ffurflen Cofnodi Salwch Plentyn** (Gweler **Atodiad 2**) sydd i'w chadw gyda ffurflen gofrestru'r plentyn a ffurflen feddyginiaeth y plentyn.

Gweithredu Mewn Argyfwng

- Petai angen triniaeth feddygol frys ar blentyn a bod y **Cylch Meithrin** yn methu cysylltu â'r rhieni / gofawyr / gwarchodwyr na'r personau cyswllt brys arall, bydd y **Cylch Meithrin** yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch y plentyn.
- Mae arwyddo'r **cytundeb gofal plant** a'r **ffurflen gofrestru** yn caniatáu i'r **Cylch Meithrin** awdurdodi unrhyw driniaeth feddygol frys a allai fod yn angenrheidiol mewn argyfwng. (Gweler y **Ffurflen P1-11**). Rhaid i berson â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol arwyddo'r ffurflen hon.

Digwyddiadau Peryglus

Mae 'Digwyddiadau Peryglus' yn cyfeirio at ddigwyddiadau penodol sydd angen rhoi gwybod amdanynt, fel y'u diffinnir yn **Rhestr 2** canllawiau **RIDDOR**. Eu bwriad yw casglu manylion am ddigwyddiadau sydd â photensial uchel i achosi marwolaeth neu anaf difrifol, ond sy'n digwydd yn gymharol anaml. Am fwy o wybodaeth, ewch i **wefan yr AGID (HSE)**.

Os bydd rhywbeth yn digwydd nad yw'n achosi anaf i'w adrodd, ond a allasai fod wedi achosi anaf o'r fath, gallai fod yn 'ddigwyddiad peryglus' y dylid ei gofnodi ar unwaith. Rhaid cofnodi hyn yn y **Llyfr Digwyddiadau** ac adolygu'r asesiad risg i leihau neu waredu'r perygl.

Er mwyn rhoi gwybod am unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad o'r fath i'r **AGID**, dylid ffonio **0845 300 9923**, neu gellir cwblhau'r adroddiad ar y we yma: <http://www.hse.gov.uk/riddor/> Os yn berthnasol, dylid hefyd hysbysu **Iechyd Cyhoeddus Cymru** neu **Adran Iechyd yr Amgylchedd**.

Rhaid hefyd hysbysu **AGC** am unrhyw ddigwyddiad o fewn 10 diwrnod. Mae'r manylion llawn ar gael yma: <http://CIW.org.uk/news/140523-changes-to-the-way-you-notify-us/?skip=1&lang=cy>

AR ÔL DAMWAIN NEU DDIGWYDDIAD DIFRIFOL RHAID ADOLYGU ASESIAD RISG Y LLEOLIAD.

CYNLLUN GWEITHREDU: YMATEB I DDAMWAIN NEU DDIGWYDDIAD

Mae gan y **Cylch Meithrin Lyfr Damweiniau** a **Llyfr Digwyddiadau**. Diffinnir **damweiniau** fel unrhyw beth sy'n achosi niwed: e.e. plentyn yn syrthio ac yn anafu'i fraich, aelod o staff yn llithro ac yn troi ei ffêr.

Diffinnir **digwyddiad** fel unrhyw beth a fyddai wedi gallu achosi niwed: e.e. plentyn yn dianc o'r lleoliad neu aelod o staff yn bachu troed mewn gwifren ond heb gael niwed.

- Mewn achos o anaf, rhaid nodi'r manylion yn y **Llyfr Damweiniau** a rhaid i'r staff, arweinydd a rhiant / gofalwr / gwarchodwr ei arwyddo fel sy'n briodol.
- Rhaid nodi unrhyw ddigwyddiad yn y **Llyfr Digwyddiadau**. Rhaid i'r staff, arweinydd a rhiant / gofalwr / gwarchodwr ei arwyddo fel sy'n briodol.
- Rhaid cadw cofnod perthnasol o ddamweiniau a digwyddiadau yn ffeil y plentyn.
- Os bydd plentyn yn cael damwain neu salwch difrifol, rhaid cysylltu â'r rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr a'r gwasanaethau argyfwng yn syth a chymryd y camau hysbysu priodol.
- Os na fydd y rhieni / gofalwyr / gwarchodwyr ar gael, bydd yr **Arweinydd** neu aelod arall o staff yn cymryd gofal o'r sefyllfa ac os oes angen, mynd â'r plentyn i'r ysbyty gyda'r manylion perthnasol. Bydd y **Cylch Meithrin** yn sicrhau y bydd gweddill y plant sydd yn y lleoliad yn cael eu goruchwylio'n effeithiol wrth ymateb i'r sefyllfa.

Rhaid i'r rhiant / gofalwr / gwarchodwr lofnodi pob adroddiad am ddamwain neu ddigwyddiad. Rhaid sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r **Person Cofrestredig** a fydd yn cynnal archwiliad i'r achos yn ôl yr angen. Yn dilyn yr archwiliad,

bydd y **Cylch Meithrin** yn rhoi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith a gweithio i sicrhau na fydd yr un ddamwain neu ddigwyddiad yn digwydd eto.

Os oes **damwain neu ddigwyddiad difrifol** yn digwydd i blentyn, gweithiwr neu ymwelydd o fewn y **Cylch Meithrin**, mae'n rhaid rhoi gwybod am hyn i'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** o dan reoliadau RIDDOR (*Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations*) ac i **AGC** o fewn 10 diwrnod.

Diffinnir damwain neu ddigwyddiad difrifol fel y nodir isod:

Marwolaeth neu Anaf Difrifol

Os bydd damwain yn gysylltiedig â'r gwaith ac un o'r staff, neu berson hunangyflogedig yn gweithio yn y lleoliad yn cael ei ladd neu yn dioddef anaf difrifol (gan gynnwys gweithred o ymosodiad corfforol); neu aelod o'r cyhoedd, yn cynnwys plant, yn cael ei ladd neu ei gludo i ysbyty; rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch heb oedi.

Enghreifftiau o Anafiadau Difrifol sy'n rhaid rhoi gwybod amdanynt:

- Torri unrhyw asgwrn heblaw bysedd, bodiau neu fysedd traed.
- Trychu (*amputation*) rhan o'r corff.
- Datgymalu'r ysgwydd, y glun, y pen-glin neu'r asgwrn cefn.
- Colli golwg (dros dro neu'n barhaol).
- Anaf cemegol neu fetel poeth yn llosgi'r llygad neu unrhyw anaf arall i'r llygad.
- Anaf o ganlyniad i sioc drydan neu losg trydanol sy'n achosi i'r person fynd yn anymwybodol neu angen dadebriad neu driniaeth mewn ysbyty am fwy na 24 awr.
- Unrhyw anaf arall yn arwain at hypothermia, salwch o ganlyniad i wres, llosgi neu fynd yn anymwybodol, neu sydd angen dadebriad, neu fynd i ysbyty.
- Mynd yn anymwybodol o ganlyniad i fygu neu ddod i gysylltiad â sylwedd niweidiol neu gyfrwng biolegol.
- Salwch sydyn sy'n gofyn am driniaeth feddygol, neu fynd yn anymwybodol o ganlyniad i amsugno unrhyw sylwedd drwy anadlu, amlyncu neu drwy'r croen.

Anaf Dros Dridiau

Os oes damwain yn gysylltiedig â'r gwaith (gan gynnwys gweithred o drais corfforol) a bod aelod o'r staff, neu berson hunangyflogedig sy'n gweithio ar eich eiddo, yn dioddef anaf dros dridiau mae'n rhaid iddo gael ei nodi fel damwain ddifrifol a rhaid hysbysu'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** ac **AGC** o fewn 10 diwrnod.

Mae anaf dros dridiau yn golygu bod y person a anafwyd i ffwrdd o'r gwaith neu'n methu â gwneud ei g/waith arferol am fwy na thridiau (gan gynnwys dyddiau nad ydynt yn ddyddiau gwaith arferol). Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i wirfoddolwyr, ymwelwyr a phlant, a rhaid rhoi gwybod am y digwyddiadau hyn.

Er mwyn rhoi gwybod am unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad o'r fath i'r **ADIG**, dylid ffonio **0845 300 9923**, neu gellir cwblhau'r adroddiad ar y we yma: <http://www.hse.gov.uk/riddor/> Mae gwefan yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â threfn rhoi gwybod am ddigwyddiad neu ddamwain ddifrifol. Mae'r wybodaeth ar gael yma : <http://www.hse.gov.uk/cymraeg/forms.htm>

Afiechyd Staff

Rhaid i glifydau hysbysadwy gael diagnosis gan Feddyg. Rhaid i staff ddarparu'r diagnosis yn ysgrifenedig i'r **Cylch Meithrin**. Os bydd meddyg yn eich hysbysu bod un o'ch gweithwyr yn dioddef o afiechyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith ac sy'n afiechyd hysbysadwy, yna mae'n rhaid i chi hysbysu'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**. Ceir rhestr lawn o heintiau hysbysadwy ar wefan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=48544>

Mae afiechydon i'w hysbysu yn cynnwys:

- Rhai gwenwynau/tocsinau
- Botwliaeth
- Enceffalitis (Ilym)
- Twymyn enterig (teiffoid neu dwymyn barateiffoid)
- Gwenwyn bwyd
- Dolur rhydd gwaedlyd heintus
- Hepatitis heintus (Ilym)
- Clefyd streptococol ymledol grŵp A a'r dwymyn goch
- Clefyd y Llengfilwyr
- Gwahanglwyf
- Malaria
- Y Frech Goch
- Llid yr Ymennydd (Ilym)
- Septisemia meningococol
- Clwy Pennau
- Polio (Ilym)
- Rwbela
- SARS
- Tetanws
- Twbercwlosis
- Teiffws
- Twymyn gwaedliful firaol (VHF)
- Y pas
- Y dwymyn felen

Ceir manylion pellach trwy'r gwefannau perthnasol a nodir isod.

Mae gwefan yr **Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch** (HSE) yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â threfn hysbysu am ddirgwyddiad neu ddamwain ddifrifol. Mae'r wybodaeth ar gael yma : <http://www.hse.gov.uk/cymraeg/forms.htm>

Polisiâu Cysylltiedig

Polisi Meddygyniaeth

Polisi Staffio

Polisi Cyfrinachedd a Diogelu Data

Polisi Cludo a Throsoglwyddo Plant

Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles

Cysylltiadau Defnyddiol a Gwybodaeth Bellach

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0 - 5 Oed) Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae Canllawiau Cymru Gyfan (2014)

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Infection%20Prevention%20and%20Control%20for%20Childcare%20Settings%20Final%202014%20%28%29%20%2D%20Welsh.pdf>

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: RIDDOR - Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 2013 <http://www.hse.gov.uk/riddor/>

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Digwyddiadau Difrifol

<http://www.hse.gov.uk/riddor/dangerous-occurences.htm>

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Ffurflenni Iechyd a Diogelwch (Cymraeg).

<http://www.hse.gov.uk/cymraeg/forms.htm>

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Rhestr o heintiau hysbysadwy

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=48544>

AGC: Newidiadau yn y ffordd yr ydych yn ein hysbysu am anafiadau difrifol, digwyddiadau, afiechydon a marwolaethau <http://CIW.org.uk/news/140523-changes-to-the-way-you-notify-us/?skip=1&lang=cy>



ATODIAD 1

Illness	Recommended period to be kept away from school, nursery or childminders	Comments
Diarrhoea and/or vomiting	48 hours from last episode of diarrhoea or vomiting	
O157 VTEC	Should be excluded for 48 hours from the last episode of diarrhoea	Further exclusion may be required for young children under five and those who have difficulty in adhering to hygiene practices
Typhoid* [and paratyphoid*] (enteric fever)	Further exclusion may be required for some children until they are no longer excreting	This guidance may also apply to some contacts who may require microbiological clearance
Shigella (dysentery)		Please consult your local HPU for further advice
Cryptosporidiosis	Exclude for 48 hours from the last episode of diarrhoea	Exclusion from swimming is advisable for two weeks after the diarrhoea has settled
Respiratory infections	Recommended period to be kept away from school, nursery or childminders	Comments
'Flu (influenza)	Until recovered	
Tuberculosis*	Always consult your local HPU	Requires prolonged close contact for spread
Whooping cough* (pertussis)	Five days from commencing antibiotic treatment, or 21 days from onset of illness if no antibiotic treatment	Preventable by vaccination. After treatment, non-infectious coughing may continue for many weeks. Your local HPU will organise any contact tracing necessary

Rashes and skin infections	Recommended period to be kept away from school, nursery or childminders	Comments
Athlete's foot	None	Athletes foot is not a serious condition. Treatment is recommended
Chickenpox	Five days from the onset of rash	
Cold sores, (Herpes simplex)	None	Avoid kissing and contact with the sores. Cold sores are generally mild and self-limiting
German measles (rubella)*	Six days from onset of rash	Preventable by immunisation (MMR x 2 doses).
Hand, foot and mouth	None	Contact your local HPU if a large number of children are affected. Exclusion may be considered in some circumstances
Impetigo	Until lesions are crusted and healed, or 48 hours after commencing antibiotic treatment	Antibiotic treatment speeds healing and reduces the infectious period
Measles*	Four days from onset of rash	Preventable by vaccination (MMR x 2).
Molluscum contagiosum	None	A self-limiting condition
Ringworm	Exclusion not usually required	Treatment is required
Roseola (infantum)	None	None
Scabies	Child can return after first treatment	Household and close contacts require treatment
Scarlet fever*	Child can return 24 hours after commencing appropriate antibiotic treatment	Antibiotic treatment recommended for the affected child
Slapped cheek/fifth disease. Parvovirus B19	None	
Shingles	Exclude only if rash is weeping and cannot be covered	Can cause chickenpox in those who are not immune i.e. have not had chickenpox. It is spread by very close contact and touch. If further information is required, contact your local HPU.
Warts and verrucae	None	Verrucae should be covered in swimming pools, gymnasiums and changing rooms

Other infections	Recommended period to be kept away from school, nursery or childminders	Comments
Conjunctivitis	None	If an outbreak/cluster occurs, consult your local HPU
Diphtheria *	Exclusion is essential. Always consult with your local HPU	Family contacts must be excluded until cleared to return by your local HPU. Preventable by vaccination. Your local HPU will organise any contact tracing necessary
Glandular fever	None	
Head lice	None	Treatment is recommended only in cases where live lice have been seen
Hepatitis A*	Exclude until seven days after onset of jaundice (or seven days after symptom onset if no jaundice)	In an outbreak of hepatitis A, your local HPU will advise on control measures
Hepatitis B*, C*, HIV/AIDS	None	Hepatitis B and C and HIV are bloodborne viruses that are not infectious through casual contact. For cleaning of body fluid spills.
Meningococcal meningitis*/ septicaemia*	Until recovered	Meningitis C is preventable by vaccination. There is no reason to exclude siblings or other close contacts of a case. Your local HPU will advise on any action needed
Meningitis* due to other bacteria	Until recovered	Hib and pneumococcal meningitis are preventable by vaccination. There is no reason to exclude siblings or other close contacts of a case. Your local HPU will give advice on any action needed

Meningitis viral*	None	Milder illness. There is no reason to exclude siblings and other close contacts of a case. Contact tracing is not required
MRSA	None	Good hygiene, in particular handwashing and environmental cleaning, are important to minimise any danger of spread. If further information is required, contact your local HPU
Mumps*	Exclude child for five days after onset of swelling	Preventable by vaccination (MMR x 2 doses)
Threadworms	None	Treatment is recommended for the child and household contacts
Tonsillitis	None	There are many causes, but most cases are due to viruses and do not need an antibiotic



**ATODIAD 2:
Ffurflen Cofnodi Salwch / Recording an Illness Form**

Mae angen cadw'r ffurflen hon yn ddiogel yn y lleoliad gan ddilyn canllawiau'r Polisi Cyfrinachedd a Diogelu Data

This form should be kept safely at the setting following the guidelines of the Confidentiality and Data Protection Policy.

Enw'r Plentyn / Staff / Child/Staff's Name				
Dyddiad[au] absenoldeb[au] oherwydd salwch (Dechrau a diwedd y Symptomau) Date[s] of illness related absence[s] (Start and End of Symptoms)	Natur y salwch (e.e. enw yr haint / symptomau) Nature of illness (e.g. name of condition / symptoms)	Ydy'r salwch yn heintus? Ydy / Nac ydy Is the condition contagious? Yes / No	Pa gamau atal lledaenu'r haint sydd wedi eu cymryd? What steps to prevent the spread of infection have been taken?	Hysybyswyd awdurdodau priodol Tim Diogelu Iechyd a AGC (a dyddiad)? Were the appropriate authorities / HSE / CIW informed (with date)?